


Ymgynghoriad a chais am fewnbwn ar ganllawiau cydnerthedd pŵer wrth gefn RAN symudol

Cynnig ar gyfer canllawiau wedi'u diweddaru i ddarparwyr cyfathrebiadau ar ddyletswyddau diogelwch gysylltiedig â chydnerthedd o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 8 Rhagfyr 2023

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 1 Mawrth 2024



Cynnwys

1. Trosolwg	3
-------------------	---

1. Trosolwg

Mae rhwydweithiau telathrebu cydnerth yn hanfodol bwysig i ddefnyddwyr a busnesau ar draws y DU, o ystyried ein dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau cyfathrebiadau digidol i gadw'r cysylltiad gartref, yn y gwaith ac wrth symud o gwmpas.

Wrth i fwy o'n gweithgareddau economaidd a chymdeithasol symud ar-lein yn y blynyddoedd i ddod, ac wrth i arloesi technolegol barhau i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau newydd ar garlam, mae'n hollbwysig bod y rhwydweithiau telathrebu sy'n sail iddynt yn ddigon cydnerth i fodloni gofynion cynyddol cymdeithas. Mae canlyniadau amhariadau ar rhwydweithiau'n debygol o fod yn fwy difrifol wrth i gymdeithas ddod yn fwyfwy dibynnol arnynt i weithredu.

Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn cynnig diweddarau ein canllawiau presennol ar gydnerthedd i ddarparu mwy o eglurder ynghylch sut y gall darparwyr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus (PECN a PECS) gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch o dan fframwaith newydd ar gyfer diogeledd a chydnerthedd a ddaeth i rym ym mis Hydref 2022.¹ Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn. Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at ddarparwyr PECN a PECS fel "darparwyr cyfathrebiadau" (neu "DC").

Mae'r canllawiau arfaethedig, sydd wedi'u crynhoi yn Adran 4, yn disgrifio ystod o arferion da yn y bensaerniaeth, y dyluniad a'r modelau gweithredu sy'n sail i rhwydweithiau a gwasanaethau telathrebu cadarn a chydnerth, yn ogystal â mesurau mwy penodol yr ydym yn disgwyl i ddarparwyr cyfathrebiadau eu hystyried. Mae'r rhain wedi'u dylunio i helpu cyflawni ein nod o sicrhau lefel briodol o gydnerthedd ar gyfer gwasanaethau ar draws y DU.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig cyflwyno fersiwn wedi'i diweddarau o'n canllawiau cydnerthedd ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau, sy'n nodi'r mesurau y disgwyliwn iddynt eu cymryd mewn perthynas â chadernid eu rhwydweithiau, fel rhan o'u dyletswyddau diogeledd o dan a105A-D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.²

Mae'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau arfaethedig yn ddigon hyblyg i fod yn berthnasol i bob math o DC sy'n cynnig rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu yn y DU, tra hefyd yn caniatáu ar gyfer datblygiad parhaus technoleg.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod rhwydweithiau wedi'u dylunio i osgoi neu leihau pwyntiau unigol o fethiant.
- sicrhau bod gan bwyntiau seilwaith allweddol swyddogaethau trosglwyddo ar ôl methu

¹ Cyflwynwyd y dyletswyddau newydd drwy'r diwygiad i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, wedi'i hategu gan Reoliadau Cyfathrebiadau Electronig (Mesurau Diogeledd) 2022.

² Y rhwymedigaethau trosgynnol ar ddarparwyr gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus (PECN a PECS) yw y dylid gweithredu mesurau priodol a chymesur i adnabod a lleihau'r risg o gyfaddawdau i ddiogeledd, a pharatoi ar gyfer y fath gyfaddawdau, ac at ddiben atal effeithiau andwyol rhag codi o'r fath gyfaddawdau, gan gynnwys unioni neu liniaru'r fath effeithiau pan fyddant yn codi.

awtomatig wedi'i ymgorffori, fel bod traffig rhwydwaith yn cael ei ddargyfeirio ar unwaith i ddyfais neu wefan arall a all gynnal cysylltedd defnyddiwr terfynol pan fydd offer yn methu.

- nodi'r prosesau, yr offer a'r hyfforddiant y dylid eu hystyried i gefnogi'r gofynion ar gydnherthedd.

Cais am fewnbwn ar gydnherthedd pŵer rhwydweithiau mynediad radio symudol

Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys cais am fewnbwn ar wahân ar bŵer wrth gefn ar gyfer rhwydweithiau mynediad radio symudol (RAN) yn Adran 5. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dibynnu ar bŵer trydanol i weithredu, a gall toriadau yn y cyflenwad achosi aflonyddwch gwasanaeth arwyddocaol a sylweddol i gwsmeriaid. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cynnwys mesurau sy'n ymwneud â darparu pŵer ychwanegol wrth gefn yn y RAN symudol yn y canllawiau arfaethedig.

Ar hyn o bryd, mae maint y ddarpariaeth batri wrth gefn ar draws y RAN symudol yn amrywio yn ôl Gweithredwr Rhwydwaith Symudol (MNO), o ran cyfran y safleoedd cell sydd â ddarpariaeth wrth gefn ac am faint o amser.

Bu ffocws cynyddol ar gydnherthedd rhwydweithiau symudol yn sgil stormydd gaeaf 2021/22 yn ogystal â symud defnyddwyr llinell dir o'r Rhwydwaith Cyfnewidfeydd Ffôn Cyhoeddus (PSTN) i dechnoleg Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP), sy'n golygu y bydd rhai defnyddwyr yn mynd yn fwy dibynnol ar rhwydweithiau symudol os bydd toriad trydan sy'n effeithio ar rhwydweithiau sefydlog.

Mae Ofcom nawr yn archwilio pa fesurau ychwanegol y gallai ddarparwyr symudol eu gweithredu o ran graddfa'r ddarpariaeth pŵer wrth gefn (fel batris) mewn safleoedd cell RAN symudol. Rydym wedi darparu fframwaith ar gyfer yr hyn a allai fod yn briodol ac yn gymesur fel rhan o'u dyletswyddau diogelwch o dan a105A-D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, gyda'r bwriad o ystyried yr hyn y gellid ei gynnwys yn ein canllawiau yn y dyfodol.

Mae cydnherthedd pŵer y RAN symudol yn fater cymhleth, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn rhan o ddadl a her ehangach ar draws y diwydiant sy'n gofyn am waith a buddsoddiad tymor hwy i fynd i'r afael ag ef. Rydym am gychwyn trafodaeth am yr hyn y gall ac y dylai rhwydweithiau symudol ei wneud o ran darparu pŵer wrth gefn ar gyfer eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau, gyda'r bwriad o weithredu hyn yn ein canllawiau yn y dyfodol, a/neu weithio gyda diwydiant a Llywodraeth y DU i nodi a dilyn ffyrdd eraill o ymdrin â'r mater hwn.

Y camau nesaf

Gwahoddwn ymatebion i'n hymgyngoriad a'n cais am fewnbwn erbyn 5pm ddydd Gwener 1 Mawrth 2024. Ceir manylion sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad 3 y fersiwn Saesneg. Bwriadwn gyhoeddi ein datganiad ar y canllawiau cydnherthedd, a'r camau nesaf ar gydnherthedd pŵer RAN symudol, yn haf 2024.